Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllunio with Cynefinoedd

**Polisi cynllunio ac hyfforddiant ar gynlluniay cynefin i gymunedau**

**Llawlyfr Gweithdy - Gwanwyn 2019**



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhan 1: Trosolwg ar gynllunio yng Nghymru** | **4** |
| **Rhan 2: Polisi cynllunio cenedlaethol** | **6** |
| **Rhan 3: Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** | **7** |
| **Rhan 4: Cynlluniau Datblygu Lleol** | **8** |
| **Rhan 5: Canllawiau Cynllunio Atodol a Chynlluniau Cynefin** | **15** |
| **Rhan 6: Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol** | **18** |

# Rhagymadrodd

Mae pob cais cynllunio yng Nghymru yn cael ei benderfynu yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol. Ond beth yw'r polisïau hyn a sut maen nwh'n cael eu creu?

Gall polisïau cynllunio da wella'r mannau ble rydym yn byw a gwarchod y pethau sy'n bwysig i ni. Mae cymunedu lleol yn arbenigwyr ar ble maen nhw'n byw a thrwy gymryd rhan mewn creu polisïau cynllunio, gallant helpu i wneud cynefinoedd yn well i bawb.

Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru mae Cymorth Cynllunio Cymru yn traddodi rhaglen o weithdai hyfforddi o'r enw 'Cynllunio eich Cynefinoedd' ar gyfer cynghorau cymuned a thref a grwpiau cymunedol. Fe'u cynhelir mewn 10 lleoliad ar draws Cymru a bydd y cyrsiau'n archwilio:

- Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, cynllun Cenedlaethol defnydd tir 20- mlynedd ar gyfer Cymru gyfan sy'n cael ei baratoi gan Lywodraeth Cymru.

- Polisïau cynllunio a osodir yn Polisi Cynllunio Cymru gan Lywodraeth Cymru a sut gallant effeithio ar benderfyniadau lleol.

- Sut mae Cynlluniau Datblygu Lleol, a baratoir gan awdurdodau cynllunio lleol, yn hysbysu penderfyniadau ar geisiadau cynllunio, a sut gall pobl gymryd rhan yn llunio'r cynlluniau hyn.

- Sut gall cymunedau weithio gydag awdurdodau lleol i baratoi eu Cynlluniau Cynefin eu hunain.

## Defnyddio'r llyfryn hwn

Mae'r llyfryn hwn yn cyfuno'r sleidiau a ddefnyddiwyd yn ystod y gweithdai hyfforddi Cynllunio eich Cynefinoedd a draddodwyd yn y Gwanwyn 2019. Fe'i dyluniwyd i weithredu fel dogfen arunig a ellir ei darllen gan unrhywun.

Datblygwyd a thraddodwyd yr hyfforddiant a'r llyfryn cysylltiedig gan Cymorth Cynllunio Cymru, elusen sy'n cefnogi ymgysylltiad cymunedol â chynllunio yng Nghymru gyda chylid gan Lywodraeth Cymru.  Gellir ei ddefnyddio fel ffynhonnell gyfeirio ond ni ddylid ei ddefnyddio fel datganiad cyflawn o gyfraith nac ymarfer cynllunio – rhoddir dolenni i ffynonellau technegol ychwanegol yn Rhan 6.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn elusen sy'n cefnogi ymgysylltiad cymunedol â'r broses cynllunio yng Nghymru.  I gael mwy o wybodaeth am Cymorth Cynllunio Cymru ewch i **www.planningaidwales.org.uk**

Bydd fersiynau electronig o'r sleidiau gweithdy a'r Llawlyfr hwn ar gael i'w lawrlwytho am ddim oddi wrth: **www.planningaidwales.org.uk/planningyourplaces**

# Rhan 1: trosolwg ar Gynllunio
# Beth yw cunllunio?




Mae cynllunio yn rheoli datblygu a defnydd tir er budd y cyhoedd. Mae'n delio â'r amgylchedd materol, megis adeiladau, ffyrdd a'r defnydd o adnoddau naturiol. Mae'n ystyried materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'r system gynlllunio yn helpu llunio dyfodol ein dinasoedd, trefi, pentrefi a chefn gwlad. Mae'n rhoi'r cyfle i unigolion, cymunedau a'u cynrychiolwyr a etholwyd (er enghraifft Cynghorwyr Cymuned a Thref) i gael llais yn y penderfyniadau a fydd yn dylanwadu ar ddyfodol eu hamgylchoedd.

Pe baech am gymryd rhan yn y system gynllunio mae'n bwysig eich bod yn gwybod sut mae'n gweithio, oherwydd bydd hyn yn cynyddu effeithiolrwydd eich sylwadau ar benderfyniadau cynllunio.

**NODIADAU**

# Pwy yw pwy mewn cynllunio?





**Llywodraeth Cymru** sy'n gosod fframwaith cyfreithiol y system gynllunio ac yn creu polisi cynllunio cenedlaethol sy'n darparu cyfarwyddyd ar sut dylai gwneuthurwyr penderfyniadau cynllunio ddelio ag amrywiaeth eang o bynciau.

Mae'r 25 Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynhyrchu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r cynlluniau hyn yn hysbysu sut y gwneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a gyflwynir gan **ddatblygwyr**.  Mae'n ofynnol dan y gyfraith bod Awdurdodau Cynllunio Lleol, a datblygwyr mewn rhai achosion, yn ymgynghori ag amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau ar benderfyniadau cynllunio.  Adwaenir y rhain fel **ymgyngoreion statudol**, ac maent yn cynnwys sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Priffyrdd Lleol a **Chynghorau Cymuned a Thref**.

# Ffurf cunllunio

Mae i gynllunio ddwy brif ran.  **Polisi cynllunio** ar sut y dylai trefi, dinasoedd ac ardaloedd cefn gwlad ddatblygu ac mae'n hysbysu sut dylid gwneud penderfyniadau ar **geisiadau cynllunio**.  Adwaenir y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio fel **Rheoli Datblygu**.




# Rhan 2:
# Polisi cynllunio cenedlaethol

Llywodraeth Cymru sy'n cynhyrchu polisi cynllunio cenedlaethol ac mae'n gosod amrywiaeth eang o faterion i'w hystyried pan fo Awdurdodau Cynllunio Lleol yn paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio. Mae polisi cenedlaethol yn:


- Cyflawni amcanion llesiant
- Hysbysu polisi lleol (CDLl)
- Hysbysu gwneud penderfyniadau




**Ffynhonnell, Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10**

**NODIADAU**

**Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10**




- Sut dylai cynllunio gyflawni amcanion llesiant
- Pwysigrwydd creu cynefinoedd
- Egwyddorion allweddol – economi, adnoddau, amgylchedd a chymuned

Lawrlwythwch o: https://beta.gov.wales/planning-policy-wales

**Nodiadau Cyngor Technegol**

- Cyngor cynllunio manwl ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol
- Rhaid eu hystyried mewn cynlluniau datblygu
- 21 pwnc cynllunio

Eu gweld a'u lawrlwytho yn: https://beta.gov.wales/technical-advice-notes

## Rhan 3: Fframwaith Datblygi Cenedlaethol (FfDC)

Yn 2019, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddrafft cyntaf ei Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a fydd yn gweithredu fel cynllun defnydd tir 20-mlynedd ar gyfer Cymru gyfan ar faterion o bwysigrwydd cenedlaethol, megis datblygiad economaidd, tai, iasadeiledd, ynni a thrafnidiaeth. Bydd y FfDC yn cyflenwi polisi, gweithredu a buddsoddiad y Llywodraeth yn ofodol.



**Beth fydd y FfDC yn ei wneud?**

- Nodi ardaloedd o dwf
- Cynllunio ar gyfer isadeiledd a datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol
- Cydlynu cyflenwi tai a chyflogaeth
- Hysbysu Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y CDLI drafft ym mis Gorffennaf 2019. Unwaith y caiff ei fabwysiadu adolygir y FfDC bob pum mlynedd. I gael mwy o wybodaeth a diweddariadau ewch i: https://gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/?lang=en

# Rhan 4: Cynlluniau Datblygu Lleol

## Pam mae CDLl yn bwysig?


Mae'n rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Mae CDLl yn bwysig oherwydd:

- Maent yn gosod fframwaith ar gyfer datblygu yn y dyfodol a defnydd tir dros gyfnod o 10-15 blynedd.
- Maent yn nodi, hysbysu a chynllunio ar gyfer buddsoddiadau ac isadeiledd yn y dyfodol ar lefel yr awdurdod gyfan ac yn lleol.
- Maent yn helpu i ddiogelu a gwella asedau amgylcheddol yr ardal.
- Hwy yw'r prif ystyriaeth mewn penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.




**NODIADAU**

# Beth mae CDLl yn eu cynnwys?




Mae gan CDLl orchwyl eang. Mae'n rhaid i gynlluniau ystyried Polisi Cenedlaethol yn ogystal ag ystod eang o faterion lleol, megis datblygiad economaidd, gwarchod cefn gwlad a darparu tai.

# Beth mae CDLl yn ey cynnwys?

Fel arfer bydd CDLl yn cynnwys datganiadau, polisïau a mapiau dan y penawdau canlynol:

- Cyd-destun Polisi, Materion Allweddol a Gyrrwyr
- Gweledigaeth a Strategaeth
- Polisïau Strategol
- Polisïau Penodol
- Gweithredu a Monitro

# Enghraifft o Bolisi CDLl

**CDLl Sir Fynwy 2011-2021**


## Polisi S17 - Dylunio a Chynllunio Cynefin

Bydd y datblygu yn cyfrannu at greu cynefinoedd cynaliadwy, deniadol o ansawdd uchel. Mae'n rhaid i holl gynigion datblygu gynnwys a hyrwyddo dyluniad cynhwysol, cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n parchu natur unigryw lleol, yn parchu cymeriad y safle a'i amgylchedd er mwyn gwarchod a gwella yr amgylchoedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac i greu cynefinoedd deniadol, diogel a hygyrch.

**NODIADAU**

# Proses paratoi CDLl

Fel arfer mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu paratoi mewn pedair blynedd ac yn mynd trwy sawl cam i sicrhau eu bod yn gadarn ac yn berthnasol.




## Sail tystiolaeth

Amcan y cam hwn yw nodi'r prif faterion ac amcanion sydd i'w delio â hwy yn y Cynllun, ac i sefydlu'r wybodaeth angenrheidiol i baratoi cynllun da. Mae datblygu'r sail tystiolaeth yma'n broses barhaus; ychwanegir y sail tystiolaeth trwy gydol camau'r cynllun sy'n weddill.

## Cytundeb Cyflawni

Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio gytuno ar 'Gytundeb Cyflawni' gyda Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

1) Amserlen i gynhyrchu'r cynllun, gan nodi pryd bydd pob cam o'r broses paratoi yn digwydd.

2) 'Cynllun Cynnwys Cymunedau' sy'n esbonio sut a phryd bydd yr awdurdod yn ymrwymo 'rhanddalwyr' a'r gymuned leol yn y broses creu cynllun.

Unwaith y caiff ei gymeradwyo, bydd y Cytundeb Cyflawni yn ymrwymo'r awdurdod lleol i gynhyrchu ei CDLl yn unol â'r amserlen a nodwyd, gan ddefnyddio'r dulliau ymgynghori a ddisgrifir yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau. Os na fydd yr awdurdod yn cadw at yr amserlen, mae'n rhaid iddo gytuno ar amserlen newydd gyda Llywodraeth Cymru.

# Ymgynghoriad Cyn-Adneuo

Unwaith bydd y wybodaeth a'r dystiolaeth wedi eu casglu, ac amcanion y cynllun wedi eu gosod, bydd yr awdurdodau cynllunio yn gweithio gyda **sefydliadau rhanddalwyr** a chymunedau lleol i ddatblygu ystod o opsiynau i'r dyfodol ar gyfer ardal y cynllun. Byddant hefyd yn gwahodd y cyhoedd, tirfeddianwyr a datblygwyr i awgrymu safleoedd posibl ar gyfer tai neu ddefnydd tir arall i'w cynnwys yn y cynllun – gelwir y rhain yn **safleoedd ymgeisiedig**. Ystyrir y rhain i weld pa opsiwn, neu gyfuniad o opsiynau, sy'n fwyaf addas ar gyfer ardal y cynllun. Mae gan awdurdodau cynllunio ddewis ynghylch sut byddant yn gweithio gyda chymunedau yn y cyfnod hwn.

Yn dilyn ystyried opsiynau eang, paratoir Cynllun Datblygu Lleol Cyn-adneuo gan yr awdurdod cynllunio. Caiff y cyhoedd gyfle i roi sylwadau ar hyn am gyfnod o chwech wythnos o leiaf. Nid yw'n ddrafft llawn o'r cynllun ond mae'n gosod allan amcanion cyffredinol yr awdurdod ar gyfer y cynllun a'r **strategaeth a ffefrir** ar gyfer twf neu newid dros gyfnod y cynllun. Fel arfer, bydd y strategaeth a ffefrir yn cynnwys opsiynau ar gyfer safleoedd mawr i'w datblygu.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, gwahoddir cymunedau lleol a sefydliadau rhanddalwyr i roi eu sylwadau ar y cynllun cyn-adneuo. Gall ymatebion i'r ymgynghoriad ddylanwadu ar y strategaeth a ffefrir, trwy awgrymu addasiadau neu newidiadau, ar yr amod eu bod yn cydfynd â phrif amcanion y CDLl.

# Cynllun adnau

Dyma ddrafft llawn y Cynllun Datblygu Lleol, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd a'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn-adneuo. Mae'r cynllun adnau yn cynnwys:

- Y strategaeth a ffefrir
- Cynigion ar gyfer ardaloedd allweddol i'w newid, adnewyddu neu ddiogelu
- Safleoedd penodol i'w defnyddio ar gyfer dibenion arbennig
- Polisïau a chynigion penodol eraill

Unwaith y rhoddir y Cynllun Datblygu Lleol ar adnau gyda Llywodraeth Cymru, ni all yr awdurdod cynllunio ei newid. Yr Arolygydd annibynnol, a fydd yn archwilio'r cynllun, yw'r unig un a all newid unrhywbeth yn y cynllun o hyn ymlaen.
Unwaith bydd y cynllun ar adnau, cynhelir ymgynghoriad pellach i'r cyhoedd am o leiaf chwech wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, gall aelodau'r cyhoedd roi sylwadau ar unrhyw agwedd o'r Cynllun Adnau.

# Archwilio'r CDLl

Yn dilyn ymgynghoriad y cyhoedd ar y Cynllun Adnau, rhoddir y cynllun a'r holl ddogfennau cysylltiol i'r Arolygiaeth Gynllunio i'w archwilio'n gyhoeddus gan Arolygydd Cynllunio annibynnol.
Bydd yr Arolygydd arnnibynnol yn edrych ar y cynllun a gyflwynwyd ac ystyried sut mae'n perfformio yn erbyn deg 'prawf cadernid'. Bydd yr Arolygydd yn gofyn tri chwestiwn allweddol i brofi 'cadernid' y cynllun:

1. Ydy e'n gweddu? – ydy e'n gyson â chynlluniau eraill?
2. Ydy e'n briodol? – ydy e'n delio â'r dystiolaeth?
3. Fydd e'n cyflenwi? – fydd e'n effeithiol?

# Monitro ac Adolygu

Unwaith y bydd y cynllun wedi ei fabwysiadu bydd yn cael ei fonitro yn flynyddol trwy Adroddiad Monitro Blynyddol. Hefyd bydd adolygiad mawr o'r CDLl bob pedair blynedd. Mae'r adroddiad adolygiad 4-blynedd yn destun i ymgynghoriad, a gall sbarduno yr angen i baratoi cynllun datblygu newydd neu adolygiad penodol; bydd yr adroddiad yn nodi rhesymau dros y naill a'r llall.

**NODIADAU**

# Pwysigrwydd ymrwymiad yn y camau cynnar

Bydd yr awdurdodau yn ymgysylltu ac ymgynghori â'u cymunedau yn llawer cynt, gyda'r bwriad o baratoi'r cynllun mewn partneriaeth. Trwy weithio gyda'u cymunedau bydd yr awdurdodau'n datblygu gweledigaeth (neu strategaeth graidd) a chynigion a pholisïau ar gyfer eu hardal.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bobl fod yn ymwybodol o'r broses paratoi Cynllun Datblygu Lleol yn llawer cynt. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr, y cyhoedd a grwpiau â diddordeb weithio gyda'i gilydd i gyfuno gwybodaeth ac i archwilio opsiynau a fydd er buddiannau gorau ardal y cynllun.

Yr amcan yw cynhyrchu cynllun sydd â chefngoaeth y cyhoedd, ac i leihau anghytuno yng nghamau diweddar paratoi'r cynllun. Bydd yr awdurdod yn anelu at baratoi cynllun cadarn.

I gymunedau sy'n dymuno ymgysylltu a dylanwadu ar y system gynllunio, mae'r fformiwla isod yn hanfodol:

**Dealltwriaeth gynyddol + ymgysylltiad cynnar a pharhaus = mwy o ddylanwad**

# Rhan 5: Canllawiau Cynllunio Atodol a Chynlluniau Cynefin

Nid yw CCA yn llunio rhan o'r CDLl, ac nid ydynt yn destun i archwiliad annibynnol ond mae'n rhaid cael ymgysylltiad lleol wrth eu paratoi a bod yn gyson â'r CDLl a pholisi cynllunio cenedlaethol. Ni all CCA gyflwyno safleoedd mawr newydd nas y'u dosrennir yn y CDLl (er y gellir nodi safleoedd bychain).

Gall y CCA fod yn seiliedig ar leoliad neu thema, ac fel arfer maent yn cynnwys manylion ychwanegol, megis gosodiad y defnydd a wneir o fewn y dosraniadau a gofynion manwl ynghylch dylunio. Mae CCA nodweddiadol, a gyflwynir gan awdurdodau cynllunio, yn delio â phynciau fel tai fforddiadwy, ynni adnewyddadwy, tu blaen y siopau a thwristiaeth yn ogystal â chanllawiau ar leoliad neu ddylunio penodol.

Bellach mae Cynghorau Cymuned a Thref (a grwpiau cymunedol mewn ardaloedd heb y cynghorau hyn) yn gallu cynhyrchu eu CCA eu hunain – gelwir y rhain yn Gynlluniau Cynefin.

## Beth yw Cynllun Cynefin?

Yn syml dyma yw Cynllun Cynefin:

- gall fod yn ddogfen sy'n gosod canllawiau cynllunio, ar lefel leol, ar ddefnydd a datblygiad y tir


- mae'n cysylltu â pholisïau cynllunio a osodir gan eich Awdurdod Cynllunio Lleol

- mae wedi ei ysgrifennu gan bobl leol sy'n adnabod yr ardal yn dda ac sy'n gallu ychwanegu mwy o fanylion i'r gwaith a wneir gan y cynllunwyr

- mae'n gallu cysylltu â Chynlluniau Cymunedol / lleol ar ystod eang o faterion Trwy gydweithrediad creadigol ag awdurdodau cynllunio lleol, gall cymunedau lleol ddatblygu canllawiau sydd wedi eu harwain gan y gymuned i helpu cyflawni uchelgeisiau lleol a gwella llesiant y gymuned.

**NODIADAU**

# Ymhle mae Cynlluniau Cynefin yn ffitio?




CLl - Cynllun Llesiant

CDLl - Cynllun Datblygu Lleol

CC - Cynllun Cynwfin

CCym - Cynllun Cymunedol

Yn union fel mae'r CDLl yn gorgyffwrdd â'r Cynlluniau Llesiant ar lefel ranbarthol, gall Cynlluniau Cynefin, fel dogfennau cynllunio defnydd tir, greu cysylltiad rhwng y CDLl a'r Cynlluniau Cymunedol a baratoir gan Gynghorau Cymuned a Thref.

# Manteision Cynlluniau Cynefin

Mae Cynlluniau Cynefin yn darparu dull i annog mwy o ymgysylltiad â'r gymuned mewn gwneud penderfyniadau cynllunio lleol trwy ddarparu cyfle i gymunedau i lunio eu hardaloedd lleol.

Gall Cynlluniau Cynefin ddarparu cyfle i gynnig manylion polisi cynllunio coethach ar gyfer ardaloedd lleol a osodir fel CCA i gefnogi uchelgeisiau cymunedau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio mai amcan Cynllun Cynefin yw "adlewyrchu natur unigryw lleol a delio â materion cymunedol, lleol penodol".

Os paratoir Cynlluniau Cynefin yn drylwyr, ac ar y cyd gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol, gellir eu mabwysiadu fel CCA, ond gellir hefyd eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer ymgysylltiad cynllunio yn y dyfodol (ar geisiadau ac ar ddatblygu CDLl) yn ogystal ag ar geisiadau am arian ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

# Hanfodion Cynllun Cynefin

Dim ond Awdurdodau Cynllunio Lleol all fabwysiadu Cynlluniau Cynefin fel CCA. Oherwydd hyn, mae'n angenrheidiol eich bod yn gweithio'n agos â thîm polisi cynllunio eich Awdurdod Cynllunio Lleol o'r cychwyn. Gallant gynghori ar eu gweithdrefnau a'r meini prawf ar gyfer datblygu CCA a gallant gynnig gwybodaeth a chefnogaeth i'ch helpu i ddatblygu eich cynllun.
Mae'n angenrheidiol bod y Cynllun Cynefin yn cydfynd â'r CDLl, yn arddangos ymgysylltiad eang eich cymuned a bod y cynigion yn y cynllun wedi eu creu trwy ddefnyddio dull yn seiliedig ar dystiolaeth.

# Canllawiau ar Gynlluniau Cynefin

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi cynhyrchu canllawiau manwl ar Gynlluniau Cynefin ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref, grwpiau cymunedol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol, sydd ar gael o **www.placeplans.org.uk**

Place Plans

Mae'r canllaw yn darparu gwybodaeth cam-wrth-gam ar benderfynu a yw Cynllun Cynefin yn iawn i'ch cymuned, amrywiaeth o becynnau cymorth i'ch helpu i gasglu tystiolaeth a manylion cyswllt timau polisi yr Awdurdodau Cynllunio ar draws Cymru.

# RHAN 6:

# Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

## Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Polisi Cynllunio Cymru: **https://beta.gov.wales/planning-policy-wales**

Nodiadau Cyngor Technegol: **https://beta.gov.wales/technical-advice-notes**

## Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

**https://gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/?lang=en**

## Cynlluniau Datblygu Lleol

Mae Llywdoraeth Cymru wedi cyflwyno canllawiau technegol manwl ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol dan yr enw 'Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol':

**https://gov.wales/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/ldpmanual/?lang=en**

Ceir gwybodaeth cyswllt ar gyfer pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn: www.planningaidwales.org.uk/about-planning/your-authority/

## Cynlluniau Cynefin

**www.placeplans.org.uk**

## Cymorth Cynllunio Cymru

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn gweithredu Llinell Gymorth: 02920 625000

I gael canllawiau pellach ar gynllunio ewch i:
**www.planningaidwales.org.uk/about-planning**

I gael manylion am ddigwyddiadau hyfforddi sydd i ddod ewch i:
**www.planningaidwales.org.uk/events**